**Lynne Neagle AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

5 Tachwedd 2024

Annwyl gyfaill,

Rwy'n ysgrifennu atoch i esbonio'r diweddaraf i chi am fy mlaenoriaethau ar gyfer gwella safonau addysgol yng Nghymru.

Ers ymgymryd â'r rôl hon, rwyf wedi gweld llawer i ymfalchïo ynddo yn yr addysg a ddarparwn, ac rwyf am ddiolch o galon i chi, eich athrawon a'ch staff cymorth am y gwaith rydych chi'n ei wneud i wella bywydau a chyfleoedd bywyd dysgwyr yng Nghymru.

Rwy'n gwybod bod ysgolion yn wynebu heriau o ran presenoldeb dysgwyr, agweddau at ddysgu a chyrhaeddiad sydd oll yn dal i fod yn wannach na chyn y pandemig. Dw i hefyd yn cydnabod bod ysgolion ar flaen y gad o ran delio â newidiadau cymdeithasol ac â dysgwyr sydd ag anghenion cynyddol gymhleth. Rwy'n gwybod eich bod yn mynd i'r afael yn rhagweithiol ac yn fedrus â'r heriau hyn.

Rwyf wedi clywed yn rheolaidd gan athrawon a staff ysgol dros y misoedd diwethaf. Gan ystyried eich negeseuon i mi, rwyf wedi nodi yma heddiw ein blaenoriaethau ar gyfer gwella'r sector gyfan. Dyma fydd fy ffocws a'r sail i'r gwelliannau yr ydym i gyd am eu gweld. Rwy'n gobeithio y bydd y set glir hon o flaenoriaethau yn ein helpu i reoli llwyth gwaith, blaenoriaethu adnoddau a chanolbwyntio ein cyd-ymdrechion i sicrhau gwelliannau go iawn i bobl ifanc.

Bydd **presenoldeb** yn dal i fod yn bwyslais allweddol i mi. Rydym yn gwybod bod cysylltiad cryf rhwng presenoldeb ysgol a chyrhaeddiad. Rydym wedi gweld gwelliant mewn presenoldeb, a gwelir arferion da mewn ysgolion. Fodd bynnag, ni fyddai'n gywir awgrymu ein bod yn hapus â'r lefelau presennol.  Mae lefelau presenoldeb yn dal i fod yn is nag oeddent cyn y pandemig, ac rwy'n bryderus am lefelau presenoldeb dysgwyr o aelwydydd incwm is.

**Llythrennedd** a **rhifedd** yw blociau adeiladu pob dysgwr. Rwyf wedi cydnabod bod angen bod yn gliriach ynghylch ein disgwyliadau o ddysgu ac rwyf wedi bod yn glir ynghylch beth sydd angen ei wneud. Yn fy Natganiad Ysgrifenedig ar 4 Hydref,

disgrifiais y camau ychwanegol rwy'n eu cymryd i gefnogi llythrennedd o dan y Cwricwlwm i Gymru. Rwyf am sicrhau bod gennych chi a'ch staff yr hyn sydd ei angen i godi disgwyliadau eich dysgwyr, ac rwyf wedi ymrwymo i sicrhau bod cymorth, offer ac adnoddau proffesiynol o ansawdd uchel ar gael ichi.

Yr wythnos hon rwyf wedi lansio ymgynghoriad ar newidiadau eglurhaol mân i Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru. Mae hyn yn cynnwys egluro rôl glir ffoneg wrth ddatgodio geiriau. Mae hefyd yn egluro'r defnydd priodol o luniau i helpu dysgwyr i ddeall ystyr geiriau. Byddwn yn croesawu sylwadau ar ein cynigion.

Mae gwaith eisoes ar y gweill i adolygu ein Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, i sicrhau ei fod yn ddigon clir, manwl ac ymarferol a'i fod yn cefnogi pob ymarferydd i gymhwyso a datblygu llythrennedd ar draws y cwricwlwm. Rydym yn gweithio gyda'n Grŵp Polisi Rhwydwaith Cenedlaethol i gasglu tystiolaeth o'u profiad o'r hyn sy'n ddefnyddiol yn y Fframwaith a beth arall y gellir ei wneud i'w gefnogi.

Rydym hefyd yn gweithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i sicrhau bod yr un hyfforddiant a chymorth o ansawdd uchel sydd ei angen arnoch ar gael i bob ysgol ar gyfer dysgu llythrennedd. Rydym yn cydweithio'n agos ag Awdurdodau Lleol i sicrhau bod cefnogaeth o ansawdd uchel ar gael ar lefel genedlaethol. Yn hyn o beth, byddwn yn treialu pecyn asesu i helpu i sgrinio sgiliau darllen a llythrennedd ehangach dysgwyr ar bwyntiau trosglwyddo allweddol. Os bydd hyn yn helpu ysgolion i ddeall yn well pa gymorth sydd ei angen ar ddysgwyr, yn enwedig y rhai sy'n ei chael hi'n anodd, byddwn yn ei gyflwyno i bawb.

Yn olaf, rwyf am sicrhau bod cefnogaeth ar gael yn rhwydd. Yr wythnos hon rwyf wedi lansio safle newydd ar Hwb i ddod â'r holl ddeunyddiau ac adnoddau ategol ar lythrennedd ynghyd. Mae hyn yn cynnwys canllaw newydd i athrawon, a chanllaw ar gyfer rhieni a gofalwyr, yn amlygu adnoddau ac astudiaethau achos o'r gwaith gwych sydd eisoes yn digwydd mewn llawer o'n hysgolion. Fel rhan o hyn, mae pob ysgol wedi cael gwybod am offer Microsoft newydd sy'n helpu dysgwyr i ddatblygu llythrennedd. Mae hi ond yn ddyddiau cynnar a bydd y safle'n cael ei ddatblygu dros amser, gydag astudiaethau achos a chymorth newydd yn cael eu hychwanegu dros y misoedd nesaf.

Rwy'n awyddus i sicrhau bod ein cefnogaeth wedi'i seilio'n gadarn ar dystiolaeth. I gefnogi hyn, rwyf wedi cynnull panel arbenigol sy'n dod ag ystod o arbenigedd ynghyd a bydd yn cyfarfod am y tro cyntaf yr wythnos nesaf.

Heddiw hefyd, rwyf wedi cyhoeddi rhaglen o gymorth wedi'i dargedu i wella cyrhaeddiad mewn llythrennedd, mathemateg a gwyddoniaeth, gyda chefnogaeth £1.1 miliwn ychwanegol eleni. Bydd y rhaglen hon yn atgyfnerthu'r gwaith da sydd eisoes yn cael ei wneud yn ein hysgolion. Law yn llaw â hyn, rwyf wedi cadarnhau y bydd Llywodraeth Cymru yn edrych sut y gellir defnyddio'r fframwaith asesiadau personol i gefnogi disgwyliadau cliriach o ran oed yn y fframwaith llythrennedd a rhifedd newydd, er mwyn helpu pob athro i wybod ble mae eu dysgwyr a sut i gefnogi cynnydd dysgwyr. Rwyf hefyd yn ystyried manteision posibl PIRLS a TIMSS i'n helpu ni i gyd i ddeall ein cynnydd cenedlaethol ac rwyf wedi esbonio wrth bob Cyfarwyddwyr Addysg ei bod yn bwysig bod ysgolion yn cymryd rhan yn PISA yn 2025. Credaf fod gwybodaeth yn bwysig i helpu ysgolion i ddeall eu dysgwyr a

chefnogi hunanwerthuso a chydweithio.  Ond rwyf am fod yn glir nad wyf am ddychwelyd, drwy'r gwaith hwn, i system sy'n seiliedig ar berfformiad ac atebolrwydd.

Mae'n bleser hefyd cael cadarnhau heddiw y bydd athrawon, i gydnabod eu hymroddiad a'u gwaith caled, yn cael codiad cyflog o 5.5% wedi'i ôl-ddyddio i fis Medi.

Rwyf wedi gwahodd pennaeth pob ysgol uwchradd yng Nghymru i gynhadledd ddydd Gwener yma, lle rwyf am wrando ar eich barn ynghylch sut y gallwn wella ymddygiad a phresenoldeb, llythrennedd a rhifedd.  Edrychaf ymlaen at y trafodaethau hyn.  Rwyf am gynnal cynadleddau penaethiaid cynradd ddechrau gwanwyn nesaf.

Edrychaf ymlaen at weithio gyda chi i gyd ar y blaenoriaethau hyn fel y gallwn wneud o'n gorau i'n dysgwyr a chyda'n gilydd lunio dyfodol mwy disglair a chadarn iddynt.

Yn gywir



**Lynne Neagle AS/MS**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Cabinet Secretary for Education